Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

# Nodyn Briffio

## Adroddiad Bwrdd y Cadeirydd – Cyfarfod Bwrdd mis Gorffennaf

### 1) Cyfarfodydd â chyrff allanol ers cyfarfod y Bwrdd ym mis Mai

| Dyddiad y cyfarfod | Cyfarfod â / Digwyddiad | Nodiadau |
|---|---|---|
| 7 Mehefin | Cyfarfod â'r Farwnes Andrews a Richard Bellamy o Gronfa Dreftadaeth y Loteri Cymru. | Gwnaeth Ceri Davies, Margarett Birkett a finnau gwrdd â'r Farwnes Andrews a Richard Bellamy.<br><br>Gwnaeth Cronfa Dreftadaeth y Loteri esbonio ei blaenoriaethau o ran yr arian a ddyrennir i brosiectau yng Nghymru, a gwnaethant annog Cyfoeth Naturiol Cymru i ystyried cyfleoedd ar gyfer prosiectau tirwedd yn y dyfodol, yn arbennig o fewn ei ardaloedd blaenoriaeth. |
| 14 Mehefin | Cyfarfod misol ag Ysgrifennydd y Cabinet | Y cyfarfod cyntaf ers mis Chwefror 2017, a oedd yn ymdrin ag amrywiaeth o bynciau, gan gynnwys Parthau Perygl Nitradau, diweddariad ar werthuso swyddi, a llygredd amaethyddol. |
| 20 Mehefin | Cyfarfod â'r Multiple Sclerosis Society | Daeth y Multiple Sclerosis (MS) Society i gwrdd â minnau a'r Tîm Gweithredol, ynghyd ag Alun Hawkes a Mark Sabine. Gwnaeth yr MS Society gyflwyno gwobr Cyflogwr y Flwyddyn i Cyfoeth Naturiol Cymru, yn dilyn enwebiad Alun Hawkes. |
| 22 Mehefin | Ymweliad safle â Bro Llynfi. | Cyn y sesiwn dystiolaeth ar gyfer Ymchwiliad i Goetir y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig Cynulliad Cymru, ar 6 Gorffennaf, bu Emyr, Ceri a minnau ar ymweliad safle a |

| | | |
|---|---|---|
| | | drefnwyd ar gyfer aelodau o'r pwyllgor, a oedd yn dangos y gwaith ar y safle nid yn unig ar gyfer coetiroedd, ond hefyd ar gyfer gwaith partneriaeth ac adfywio. |
| 3 Gorffennaf | Cyfarfod y Grŵp Ffocws Cwsmeriaid | Cyfarfod cyflwyniadol gyda'r Sefydliad Gwasanaeth Cwsmeriaid, a fydd yn gweithio i wneud gwelliannau i ddarpariaeth gofal cwsmeriaid Cyfoeth Naturiol Cymru o fewn a thu hwnt i'r sefydliad. |
| 7 Gorffennaf | Panel Cynghori Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol | Ail gyfarfod y panel hwn gyda Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, Sophie Howe. |